# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 13 Chwefror 2023

Amser: 12.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(12.00)

## 2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(12.00 - 12.05)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**2.1 SL(6)316 - Rheoliadau Swyddi Barnwrol (Eistedd mewn Ymddeoliad - Swyddi Rhagnodedig a'u Disgrifiadau) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 1 - 4)

Y Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-23 - Papur 1 - Adroddiad drafft

**2.2 SL(6)317 - Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2023**

(Tudalennau 5 - 7)

Y Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-23 - Papur 2 - Adroddiad drafft

**2.3 SL(6)320 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 8 – 12)

Y Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-23 – Papur 3 – Adroddiad drafft

LJC(6)-06-23 – Papur 4 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Llywydd, 31 Ionawr 2023

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol**

**2.4 SL(6)319 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2023**

(Tudalennau 13 – 15)

Y Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-23 – Papur 5 – Adroddiad drafft

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

(12.05 – 12.10) (Tudalennau 16 – 17)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-23 – Papur 6 – Adroddiad drafft

**3.1 SL(6)318 – Cod ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(12.10 – 12.15)

**4.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig**

(Tudalennau 18 - 19)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-23 - Papur 7 - Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 6 Chwefror 2023

**4.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

(Tudalennau 20 - 22)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-23 - Papur 8 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 7 Chwefror 2023

LJC(6)-06-23 - Papur 9 - Datganiad ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 7 Chwefror 2023

**4.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Grŵp Rhyng-weinidogol Gweinidogion Iechyd y DU**

(Tudalen 23)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-23 - Papur 10 - Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 7 Chwefror 2023

**4.4 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2023**

(Tudalennau 24 - 27)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-23 - Papur 11 - Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 9 Chwefror 2023

LJC(6)-06-23 - Papur 12 - Datganiad ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 09 Chwefror 2023

## 5 Papurau i'w nodi

(12.15 - 12.20)

**5.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) Llywodraeth y DU**

(Tudalennau 28 - 29)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-23 - Papur 13 - Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 6 Chwefror 2023

**5.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Caffael**

(Tudalennau 30 - 39)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-23 - Papur 14 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 8 Chwefror 2023

LJC(6)-06-23 - Papur 15 - Llythyr at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 26 Ionawr 2023

**5.3 Gohebiaeth gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, a Gweinidog yr Economi: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)**

(Tudalennau 40 - 42)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-23 - Papur 16 - Llythyr gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, a Gweinidog yr Economi, 8 Chwefror 2023

**5.4 Papur briffio'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer yr ail ddarlleniad o Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) yn Nhŷ'r Arglwyddi**

(Tudalennau 43 - 50)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-23 - Papur 17 - Papur briffio'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol [Saesneg yn unig]

**5.5 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Capasiti Llywodraeth Cymru i ddeddfu**

(Tudalennau 51 - 52)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-23 – Papur 18 – Llythyr gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 9 Chwefror 2023

## Egwyl

(12.20 - 12.30)

## 6 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor

(12.30 - 15.30)

Trefn ystyried a gytunwyd:

Cytunodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 16 Ionawr 2023, o dan Reol Sefydlog 26C.27, mai trefn yr ystyriaeth fanwl gan y Pwyllgor fyddai: adrannau 2 i 75; Atodlenni 1 a 3 i 6; adrannau 76 i 157; Atodlenni 2 a 7 i 10; adrannau 158 i 166; Atodlen 11; adrannau 167 i 191; Atodlen 12; adrannau 192 i 213; Atodlenni 13 ac 14; adran 1; Teitl hir.

Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli - 13 Chwefror 2023

Grwpio Gwelliannau - 13 Chwefror 2023

Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

(15.30)

## Egwyl

(15.30 - 15.40)

## 8 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru): Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor – y camau nesaf

(15.40 - 15.45)

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio): Adroddiad drafft

(15.45 - 16.30) (Tudalennau 53 - 55)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-23 - Papur 19 - Adroddiad drafft (I ddilyn)

LJC(6)-06-23 - Papur 20 - Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-06-23 - Papur 21 - Llythyr at y Pwyllgor Busnes, 27 Ionawr 2023

## 10 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio Adroddiad drafft

(16.30 - 17.15) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-23 - Papur 22 - Adroddiad drafft

## 11 Cytundebau rhyngwladol

(17.15 - 17.25) (Tudalennau 56 - 58)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-06-23 - Papur 23 - Nodyn briffio [Saesneg yn unig]

# SL(6)316 – Rheoliadau Swyddi Barnwrol (Eistedd mewn Ymddeoliad – Swyddi Rhagnodedig a'u Disgrifiadau) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

O dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 ("y Ddeddf"), cyflwynwyd newidiadau, sy'n berthnasol i'r DU gyfan, i'r oedran ymddeol gorfodol ar gyfer deiliaid swyddi barnwrol, gan ei godi o 70 i 75 oed. Sefydlwyd un drefn ddeddfwriaethol sy'n llywodraethu deiliaid swydd farnwrol sy'n eistedd mewn ymddeoliad. Nid yw penodiadau o'r fath yn ymestyn y tu hwnt i'r oedran ymddeol gorfodol o 75. Mae'r Ddeddf yn creu cyfres o swyddi barnwrol eistedd mewn ymddeoliad sy'n cyfateb i swyddi barnwrol gwreiddiol. Cytunodd y Senedd ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Ddeddf ar 8 Chwefror, 2022.

Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yw'r awdurdod penodi ar gyfer y swyddi barnwrol eistedd mewn ymddeoliad newydd sy'n cyfateb i'r swyddi barnwrol gwreiddiol yn Nhribiwnlysoedd Cymru. Mae "person cymwys" i'w benodi i swydd eistedd mewn ymddeoliad yn berson sy'n dal neu sydd wedi dal swydd ragnodedig, ac yn berson o unrhyw ddisgrifiad arall a ragnodir. Ystyr "rhagnodedig" yw wedi'i ragnodi mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru gyda chytundeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn, felly, yn rhagnodi'r swyddi barnwrol y mae'n rhaid i berson eu dal neu fod wedi'u dal cyn eu hymddeoliad i fod yn gymwys i gael eu penodi i swydd benodol eistedd mewn ymddeoliad. Mae'n ofynnol i'r Rheoliadau gael eu sefydlu cyn y gall Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru arfer pwerau a roddir gan adran 124 o'r Ddeddf i benodi personau cymwys i swyddi eistedd mewn ymddeoliad am fod y person dal sylw'n dal neu wedi dal swydd farnwrol wreiddiol gyfatebol.

## Gweithdrefn

Negyddol

Cafodd y Rheoliadau eu gwneud gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.  Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Craffu Technegol

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Pennawd yr Atodlen yw "Swyddi Barnwrol a Restrir yn Rhan 5 o Atodlen 3 i'r Ddeddf a Swyddi Rhagnodedig Cyfatebol". Nid yw' term 'Deddf" wedi'i ddiffinio yn y Rheoliadau a, chan hynny, nid yw'n glir pa Ddeddf y cyfeirir ati.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**.

Yn rheoliad 2, mae nifer o wallau a gwahaniaethau—

(a) yn y testun Saesneg, mae'r diffiniad yn dechrau â phrif lythyren "Legally..." ond mae'r term diffiniedig yn y testun Cymraeg yn dechrau â llythyren fach;

(b) yn nhestun y ddwy iaith, mae'r diffiniadau yn yr iaith gyfatebol a roddir mewn cromfachau ac mewn llythrennau italig wedyn ychydig yn wahanol i'r diffiniadau gwirioneddol, fel a ganlyn—

i. yn y testun Saesneg, dylai'r diffiniad Cymraeg cyfatebol gynnwys y geiriau "wedi ymgymhwyso yn y gyfraith" i fod yn gyson â'r diffiniad gwirioneddol, ond mae'r fannod ar goll ac, yn lle hynny, ceir "wedi ymgymhwyso yn gyfraith";

ii. yn y testun Cymraeg, dylai'r diffiniad Saesneg cyfatebol ddechrau â phrif lythyren "Legally qualified ..." i fod yn gyson â'r diffiniad gwirioneddol ond, yn lle hynny, mae'n dechrau â llythyren fach;

(c) yn y testun Cymraeg, ym mharagraff (b), nid yw'r cyfieithiad yn cynnwys dim i gyfleu ystyr "at least" yn y cymal "at least five years' standing". O ganlyniad, ystyr y cyfieithiad yw "of five years standing".

3. **Rheol Sefydlog 21.2(viii) – mae'n defnyddio iaith ryw benodol.**

Yn y testun Saesneg, cyfeirir at rai swyddi penodol ac mae'r rhain yn cynnwys y geiriau "chairman" a "deputy chairman". Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

> *Oherwydd bod y fframwaith statudol ar gyfer pob Tribiwnlys Cymreig yn diffinio'r swyddi barnwrol gwreiddiol y mae'r Ddeddf yn creu swyddi cyfatebol eistedd mewn ymddeoliad mewn perthynas â hwy, mae'r derminoleg bresennol sy'n diffinio'r swyddi gwreiddiol hynny wedi'i chario drwodd i'r Rheoliadau. Mae'r dull hwn wedi'i ddilyn gan gynnwys lle y bernir bod terminoleg y ddeddfwriaeth hŷn yn hen ffasiwn. Y rhesymeg dros wneud hynny yw cynnal eglurder o ran y swydd farnwrol wreiddiol ragnodedig mae'n rhaid i berson ei dal neu fod wedi'i dal i fod yn gymwys i gael ei benodi i'r swydd gyfatebol eistedd mewn ymddeoliad.*

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

> *Gwneir y Rheoliadau gyda chytundeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac ymgynghorwyd â'r Llywydd wrth iddynt gael eu paratoi. Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad pellach mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn sy'n weinyddol ac yn dechnegol eu natur.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu Technegol 1:**
Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y byddai wedi bod yn gliriach i'r darllenydd pe bai'r term "y Ddeddf" ym mhennawd yr Atodlen wedi'i ddiffinio. Mae'r Llywodraeth yn derbyn mai hepgoriad yw hyn ond, ar ôl ystyried y mater, mae o'r farn na fyddai'n briodol gwneud diwygiad na chywiriad i gywiro'r gwall.

Ein rheswm dros ddod i'r casgliad hwn yw ei bod yn ddigon clir mai'r Ddeddf y cyfeirir ati yw Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022. Deddf 2022 yw'r unig ddeddfwriaeth alluogi ar gyfer y Rheoliadau ac nid oes unrhyw gyfeiriadau yn y Rheoliadau at ddeddfwriaeth arall. Mae'r Llywodraeth yn diolch i'r Pwyllgor am dynnu ei sylw at yr hepgoriad. Fodd bynnag, am y rhesymau a nodir uchod, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu gadael yr offeryn fel ag y mae.

**Pwynt Craffu Technegol 2(a):**
Mae'r Llywodraeth yn cydnabod yr anghysondeb yn y defnydd o briflythyren gyntaf a llythyren fach gyntaf yn y term a ddiffinnir yn y testunau Cymraeg a Saesneg, Fodd bynnag, nid yw hyn yn effeithio ar ystyr y Rheoliadau na chysondeb rhwng y ddau destun.

**Pwynt Craffu Technegol 2(b)(i):**
Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod y fannod "y" ar goll o'r diffiniad Cymraeg yn y testun Saesneg. Fodd bynnag, nid yw hyn yn effeithio ar ystyr y Rheoliadau na chysondeb rhwng y testunau.

**Pwynt Craffu Technegol 2(b)(ii):**
Mae'r Llywodraeth yn cydnabod yr anghysondeb yn y defnydd o briflythyren a llythyren fach. Fodd bynnag, nid yw hyn yn effeithio ar ystyr y Rheoliadau na chysondeb rhwng y ddau destun.

**Pwynt Craffu Technegol 2(c):**
Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y dylai'r testun Cymraeg fod wedi cyfleu ystyr "at least" yn Rheoliad 2(b). Mae'r Llywodraeth yn derbyn mai hepgoriad yw hyn ond, ar ôl ystyried y mater, mae o'r farn na fyddai'n briodol gwneud diwygiad na chywiriad i gywiro'r gwall.

Ein rheswm dros ddod i'r casgliad hwn yw ei bod yn ddigon clir y bydd P yn dal i fodloni'r disgrifiad os oes ganddo fwy na phum mlynedd o wasanaeth. Nid oes unrhyw bosibilrwydd y

byddai llys na rhywun sy'n defnyddio'r ddeddfwriaeth yn dehongli'r cyfeiriad mewn modd sy'n eithrio eiriolwr neu gyfreithiwr yn yr Alban sydd â mwy na phum mlynedd o wasanaeth. Mae'r Llywodraeth yn diolch i'r Pwyllgor am dynnu ei sylw at yr hepgoriad. Fodd bynnag, am y rhesymau a nodir uchod, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu gadael yr offeryn fel ag y mae.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**6 Chwefror 2023**

# SL(6)317 – Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2023

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2023 ("y Rheoliadau") yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 50, 52, 53(3), 61, 64(1), a (2)(b), 66 a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014").

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015 (“y Rheoliadau Gosod Ffioedd”) a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 (“y Rheoliadau Asesiad Ariannol”).

Mae’r Rheoliadau Gosod Ffioedd yn nodi’r gofynion y mae’n rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn wrth wneud penderfyniad ar swm y ffioedd sy’n gymwys mewn perthynas â gofal a chymorth y maent yn eu darparu neu yn eu trefnu wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan Ran 4 o Ddeddf 2014. Act. Mae’r Rheoliadau Gosod Ffioedd hefyd yn cynnwys darpariaethau cyfochrog sy’n nodi’r gofynion sy’n gymwys pan fydd awdurdod lleol yn gwneud taliadau uniongyrchol i ddiwallu angen person am ofal a chymorth. Mae’r Rheoliadau Asesiad Ariannol yn gwneud darpariaeth o dan Ddeddf 2014 ynghylch y ffordd y mae’n rhaid i awdurdod lleol gynnal asesiad ariannol o adnoddau ariannol person (“A”) yn yr achosion a ganlyn:

- pan fo’r awdurdod yn tybio, pe bai’n diwallu anghenion A am ofal a chymorth (neu anghenion gofalwr am gymorth), y byddai’n gosod ffi o dan adran 59 o Ddeddf 2014, neu
- pan fo’r awdurdod yn tybio, pe bai’n gwneud taliadau tuag at y gost o ddiwallu anghenion A am ofal a chymorth (neu angen gofalwr am gymorth) drwy wneud taliadau uniongyrchol yn rhinwedd adran 50 neu 52 o Ddeddf 2014, y byddai’n ei gwneud yn ofynnol i A dalu, ar ffurf ad-daliad (yn achos taliadau gros) neu gyfraniad (yn achos taliadau net), tuag at y gost o sicrhau’r ddarpariaeth honno o ofal a chymorth.

Mae rheoliad 2 o’r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 13 o’r Rheoliadau Gosod Ffioedd (isafswm incwm ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal) i gynyddu’r swm incwm wythnosol net o £35 i £39.50. Mae rheoliad 28 hefyd wedi ei ddiwygio i wneud newid cyfatebol ar gyfer derbynnydd taliadau uniongyrchol.

Mae rheoliad 3(a)(i) o’r offeryn hwn yn diwygio geiriad disgrifiadol paragraff 20(1) o Atodlen 2 i’r Rheoliadau Asesiad Ariannol i gynnwys y canlynol:

- taliad Tŵr Grenfell,
- taliad camdriniaeth plant,
- taliad Windrush, a
- thaliadau a wneir gan Ymddiriedolaeth y Plant Mudol.

Mae'r cynlluniau hyn eisoes wedi eu diystyru drwy effaith paragraff 20 o Atodlen 2 drwy eu cynnwys yn Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987 ac maent wedi eu hychwanegu yn y geiriau disgrifiadol er eglurder.

Mae rheoliad 3(a)(ii) o'r offeryn hwn yn diwygio Atodlen 2 i'r Rheoliadau Asesiad Ariannol fel a ganlyn:

- mae taliadau a wneir o dan y Cynllun Cymorth Biliau Ynni,
- mae taliadau a wneir o dan Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Taliadau Ychwanegol) 2022,

i'w diystyru wrth gyfrifo cyfalaf oedolyn.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol, sef yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, nodwn fod yr Isafswm Incwm, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol, yn cael ei gynyddu o £35 i £39.50. Mae hyn ystyried y codiadau blynyddol i bensiynau'r wladwriaeth y DU a thaliadau budd-daliadau lles, sy'n sail i incwm wythnosol preswylwyr cartrefi gofal.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod y cynnydd ym mhensiwn sylfaenol y wladwriaeth yn unig yn £14.35 yr wythnos.

Wrth wneud y Rheoliadau hyn bydd preswylwyr a gefnogir gan eu hawdurdodau lleol yn cadw '*tua thraean*' o'r cynnydd y maent yn ei gael i'w wario ar eitemau personol fel y dymunant. Dywedir y bydd hyn yn arwain at awdurdodau lleol yn cael cynnydd o ran incwm ffioedd o '*tua £8.3 miliwn y flwyddyn drwy gyfraniadau gan y 16,144 o breswylwyr dros oedran pensiwn y wladwriaeth yn unig.*'

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**8 Chwefror 2023**

# SL(6)320 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2023

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 ("y Prif Reoliadau"), sy'n darparu ar gyfer codi ac adennill ffioedd am wasanaethau perthnasol a ddarperir o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 i ymwelwyr tramor.

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 4D o'r Prif Reoliadau, sy'n ymwneud â ffioedd ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd i unigolion sydd wedi gwneud cais hwyr am ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi o dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd ("y Cynllun"). Mae'r diwygiadau yn darparu na chaniateir codi ffi ar unigolion sydd wedi gwneud cais o'r fath, ond na roddwyd statws preswylydd cyn-sefydlog neu statws preswylydd sefydlog iddynt o dan y Cynllun hwnnw, am wasanaethau gofal iechyd perthnasol a ddarperir iddynt wrth i'w cais gael ei ystyried, ac o ran unrhyw ffioedd am y gwasanaethau hynny:

- Os ydynt eisoes wedi eu codi, na chaniateir eu hadennill;
- os ydynt eisoes wedi eu talu, fod rhaid eu had-dalu.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y 3 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y torrir y confensiwn 21 diwrnod (h.y. y confensiwn y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 31 Ionawr 2023.

Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

> "*Mae Rheoliad 4D(1) o'r Prif Reoliadau yn darparu na chodir tâl ar berson sy'n gwneud cais hwyr i Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ("EUSS") am wasanaethau perthnasol sy'n cael eu darparu tra bo ei gais yn cael ei benderfynu. Er hynny, os yw'r cais yn aflwyddiannus, mae rheoliad 4D(4) o'r Prif Reoliadau yn darparu ymhellach y codir tâl arnynt am y gwasanaethau perthnasol hynny a ddarparwyd yn ystod y cyfnod y gwnaed eu cais a'r dyddiad y penderfynwyd yn derfynol ar y cais.*
>
> *A minnau wedi adolygu'r polisi ar godi tâl ar ymgeiswyr hwyr am EUSS, rwyf o'r farn nad yw'r codi tâl am driniaeth o dan Reoliad 4D(4) o'r Prif Reoliadau, yn achos ymgeiswyr hwyr am EUSS y gwrthodir eu cais wedyn, yn adlewyrchu darpariaethau Erthygl 18 o'r Cytundeb Ymadael ac Erthygl 17 o Gytundeb Gwahanu EEA EFTA.*
>
> *Mae Rheoliadau 2023 yn dileu'r gofyniad i godi tâl ar ymgeiswyr hwyr aflwyddiannus i EUSS am driniaeth y GIG a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod yr oedd eu cais o dan ystyriaeth ac yn gwneud y canlynol yn ofynnol ar gyfer unrhyw daliadau am wasanaethau o'r fath: os ydynt wedi eu codi, rhaid peidio â'u hadennill; os ydynt wedi eu talu, rhaid eu had-dalu.*
>
> *Er bod trafodaethau gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn nodi na chodwyd tâl ar unrhyw unigolion yng Nghymru ac na fwriedir codi tâl arnynt am driniaeth yn hyn o beth, gwnaed Rheoliadau 2023 ar frys er mwyn sicrhau na wneir unrhyw daliadau diangen (os bydd ffioedd yn daladwy), a hefyd er mwyn sicrhau bod y Prif Reoliadau yn adlewyrchu'r Cytundeb Ymadael a'r Cytundeb Gwahanu.*"

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Er bod y Rheoliadau yn gymwys yn rhagolygol, yn ymarferol maent yn cynnwys elfen o ôl-weithredol.

Y rheswm dros hynny yw na ellir, bellach, adennill unrhyw daliadau a godwyd am driniaeth GIG a ddarparwyd i geiswyr hwyr cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, y mae eu cais am statws preswylwyr cyn-sefydlog, neu preswylwyr sefydlog, o dan y Cynllun wedi hynny yn aflwyddiannus, o ganlyniad i'r diwygiadau a wnaed i'r Prif Reoliadau gan y Rheoliadau hyn. Yn yr un modd, rhaid ad-dalu unrhyw daliadau a adenillir gan geiswyr am driniaeth GIG cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Nodir y canlynol yn benodol y Memorandwm Esboniadol fel y cyfiawnhad o ran polisi ar gyfer yr elfen ôl-weithredol hon:

*"Bydd y Rheoliadau'n sicrhau bod y Prif Reoliadau yn adlewyrchu darpariaethau Erthygl 18 o'r Cytundeb Ymadael ac Erthygl 17 o'r Cytundeb Gwahanu o ran codi tâl ar gyfer triniaeth ar ymgeiswyr hwyr i'r Cynllun Preswylio Sefydlog, ac yn sicrhau bod ymgeiswyr hwyr aflwyddiannus yn cael eu trin yr un peth â'r ymgeiswyr hynny a gyflwynodd eu cais i'r Cynllun Preswylio Sefydlog mewn pryd."*

Er gwaethaf hynny, nodir y llinell ganlynol mewn llythyr oddi wrth Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i'r Llywydd dyddiedig 31 Ionawr 2023:

*"…Er bod trafodaethau gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn nodi na chodwyd tâl ar unrhyw unigolion yng Nghymru ac na fwriedir codi tâl arnynt am driniaeth yn hyn o beth…"*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Nid oes dyletswydd statudol i ymgynghori* […]. *Ystyrir nad oes angen ymgynghori ar y diwygiadau arfaethedig gan eu bod yn gweithredu cytundebau rhyngwladol y DU sy'n berthnasol i'r DU gyfan ac felly mae rhwymedigaeth ar Gymru i'w gweithredu a chadw atynt."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**3 Chwefror 2023**

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**



Ein cyf/Our ref : MA-EM-0021-23

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1SN

31 Ionawr 2023

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) 2023) ("Rheoliadau 2023")**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwyf yn eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 1 Chwefror 2023, lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef er gwybodaeth ichi.

Mae Rheoliadau 2023 yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989 ("y Prif Reoliadau"). Mae'r Prif Reoliadau yn nodi'r fframwaith ar gyfer codi tâl ar unigolion nad ydynt yn preswylio fel arfer yn y DU am driniaeth a ddarperir mewn ysbyty yng Nghymru.

Mae Rheoliad 4D(1) o'r Prif Reoliadau yn darparu na chodir tâl ar berson sy'n gwneud cais hwyr i Statws Preswylwyr Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ("EUSS") am wasanaethau perthnasol sy'n cael eu darparu tra bo ei gais yn cael ei benderfynu. Er hynny, os yw'r cais yn aflwyddiannus, mae rheoliad 4D(4) o'r Prif Reoliadau yn darparu ymhellach y codir tâl arnynt am y gwasanaethau perthnasol hynny a ddarparwyd yn ystod y cyfnod y gwnaed eu cais a'r dyddiad y penderfynwyd yn derfynol ar y cais.

A minnau wedi adolygu'r polisi ar godi tâl ar ymgeiswyr hwyr am EUSS, rwyf o'r farn nad yw'r codi tâl am driniaeth o dan Reoliad 4D(4) o'r Prif Reoliadau, yn achos ymgeiswyr hwyr am EUSS y gwrthodir eu cais wedyn, yn adlewyrchu darpariaethau Erthygl 18 o'r Cytundeb Ymadael ac Erthygl 17 o Gytundeb Gwahanu EEA EFTA.

Mae Rheoliadau 2023 yn dileu'r gofyniad i godi tâl ar ymgeiswyr hwyr aflwyddiannus i EUSS am driniaeth y GIG a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod yr oedd eu cais o dan ystyriaeth ac yn gwneud y canlynol yn ofynnol ar gyfer unrhyw daliadau am wasanaethau o'r fath: os ydynt wedi eu codi, rhaid peidio â'u hadennill; os ydynt wedi eu talu, rhaid eu had-dalu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er bod trafodaethau gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn nodi na chodwyd tâl ar unrhyw unigolion yng Nghymru ac na fwriedir codi tâl arnynt am driniaeth yn hyn o beth, gwnaed Rheoliadau 2023 ar frys er mwyn sicrhau na wneir unrhyw daliadau diangen (os bydd ffioedd yn daladwy), a hefyd er mwyn sicrhau bod y Prif Reoliadau yn adlewyrchu'r Cytundeb Ymadael a'r Cytundeb Gwahanu.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd; Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd; Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

# SL(6)319 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2023

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau yn diwygio, yng Nghymru, y sail ar gyfer cyfrifo'r lluosydd ardrethu annomestig, sy'n defnyddio'r fformiwla a geir ym mharagraff 4B o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988").

Mae'r Rheoliadau yn gymwys i'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023. Mae'r Rheoliadau yn datgymhwyso'r defnydd o'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer mis Medi 2022 wrth gyfrifo'r lluosydd ardrethu annomestig, ac yn datgan bod y cyfrifiad yn cael ei wneud gan ddefnyddio 113.9 yn lle'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. Effaith hyn yw rhewi'r lluosydd ardrethu annomestig ar gyfer 2023-24.

## Y weithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Yn unol â pharagraff 5(13C) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau cyn i'r Senedd gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023, neu cyn 1 Mawrth 2023 (pa un bynnag sydd gyntaf) er mwyn iddynt gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y 3 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3 (i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu awdurdod lleol neu gyhoeddus er mwyn cydnabod unrhyw drwydded, cydsyniad neu unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.**

Nodir fel a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Caiff yr holl refeniw NDR a gesglir yng Nghymru ei roi mewn cronfa ganolog a'i ddosbarthu i'r awdurdodau lleol ac i gomisiynwyr heddlu a throseddu fel rhan o'r*

*setliadau blynyddol ar gyfer llywodraeth leol. Gelwir y cyfanswm i'w ddosbarthu fel hyn yn Swm Dosbarthadwy. Fe'i cyfrifir drwy gymhwyso'r lluosydd i gyfanswm cenedlaethol amcangyfrifedig y gwerth ardrethol, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw warged neu ddiffyg a gariwyd ymlaen o'r blynyddoedd blaenorol.*

*Mae'r Swm Dosbarthadwy yn gydran allweddol o'r setliadau refeniw blynyddol ar gyfer llywodraeth leol ac mae Deddf 1988 yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei gymeradwyo gan y Senedd fel rhan o Adroddiadau Cyllid Llywodraeth Leol a gyhoeddir yn flynyddol.* Mae angen i'r lluosydd, felly, gael ei bennu cyn y gellir rhoi trefn derfynol ar y setliad blynyddol."

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn bwysigrwydd y Rheoliadau hyn, a'u heffaith ar y setliadau refeniw llywodraeth leol blynyddol. Nodwn benderfyniad Llywodraeth Cymru i rewi'r lluosydd ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023 yn hytrach na chynyddu'r lluosydd drwy gyfeirio at y Mynegai Prisau Defnyddwyr. Mae'r dull hwn yn golygu bod y lluosydd yn parhau i fod yr un ffigur â'r ffigur a gyfrifwyd ar gyfer blynyddoedd ariannol 2020-21 a 2021-22.

Yn benodol, nodwn y paragraffau defnyddiol a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"*Bydd pob perchennog a meddiannwr eiddo annomestig yng Nghymru sy'n talu ardrethi yn elwa ar y newid, ac yn cael biliau ardrethi is ar gyfer 2023-24 nag y byddai pe bai CPI yn cael ei ddefnyddio. Bydd hyd yn oed eiddo sy'n cael symiau sylweddol o ryddhad ardrethi yn elwa, gan y bydd y rhwymedigaeth weddilliol yn cael ei chyfrifo gan ddefnyddio lluosydd is.*

...

*Bydd rhewi'r lluosydd yng Nghymru, yn hytrach na'i gynyddu i gynnal refeniw NDR termau real yn unol â CPI, yn lleihau'r incwm i'r gronfa NDR yn ystod 2023-24. Bydd y gostyngiad yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei adlewyrchu yn y cyfrifiadau ar gyfer setliadau llywodraeth leol, fel nad oes unrhyw effaith ariannol ar gyllidebau awdurdodau lleol na chyllidebau'r heddlu.*"

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"*Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ar y polisi y tu ôl i Reoliadau 2023. Mae'r cynigion o fudd i bob talwr ardrethi yng Nghymru ac nid oes unrhyw effaith ar yr adnoddau sydd ar gael i'r awdurdodau lleol na gwasanaethau'r heddlu.*"

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**3 Chwefror 2023**

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 13 Chwefror 2023

## SL(6)318 – Cod ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

### Gweithdrefn: Drafft Negyddol

Cyhoeddir y Cod Ymarfer hwn o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rhaid i awdurdodau lleol, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, weithredu yn unol â'r gofynion a geir yn y Cod hwn.

Mae'r Cod diwygiedig hwn wedi ei ddiwygio i adlewyrchu nifer o gynlluniau cymorth ariannol newydd drwy ychwanegu at y rhestr o fathau o gyfalaf y dylid eu diystyru'n llawn yn yr asesiad ariannol ar gyfer codi ffioedd am bob math o ofal a chymorth.

Darnau newydd o ddeddfwriaeth mewn meysydd heb eu datganoli a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yw'r cynlluniau hyn sy'n gwneud taliadau i unigolion ac aelwydydd i'w cefnogi yng nghyd-destun y pwysau presennol ar gostau byw sy'n deillio o gynnydd mewn prisiau ynni.

Mae'r cynlluniau cymorth ariannol newydd sydd i'w hychwanegu at y Cod yn cynnwys:

- taliadau a wneir o dan y Cynllun Cymorth Biliau Ynni (EBSS)
- taliadau Incwm Isel neu Gostau Byw i'r Anabl a wneir o dan Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Taliadau Ychwanegol) 2022

Mae llunio Cod diwygiedig hefyd yn gyfle i ychwanegu cyfeiriad at ddiwygio rheoliadau gosod ffioedd ac asesiad ariannol sydd wedi dod i rym ers yr adolygiad blaenorol. I'r perwyl hwn, cyfeirir at Reoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2023 yn y Cod diwygiedig fel y bo'n briodol. Ar gyfer cyflawnder y gwneir hyn, gan fod y rheoliadau yn diwygio'r prif reoliadau y cyfeirir atynt yn y Cod.

Mae'r cynlluniau iawndal presennol a ganlyn wedi'u diystyru'n flaenorol mewn rheoliadau o dan baragraff 20(1) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Asesiad Ariannol, ond maent bellach wedi eu rhestru ar wahân yn y Cod Ymarfer i roi eglurder i'r defnyddiwr terfynol:

- taliad Tŵr Grenfell,

- taliad camdriniaeth plant,
- taliad Windrush o dan Ddeddf Cynllun Iawndal Windrush (Gwariant) 2020,
- taliadau a wneir gan Ymddiriedolaeth y Plant Mudol o dan y cynllun ar gyfer cyn-blant mudol Prydeinig.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
**Fe'u gwnaed ar:** Heb ei nodi
**Fe'u gosodwyd ar:** Heb ei nodi
**Yn dod i rym ar:** Heb ei nodi

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS

Cadeirydd

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder ac Ymgynghori

Huw.Irranca-Davies@senedd.wales

6 Chwefror 2023

Annwyl Huw,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, hoffwn roi gwybod i chi am gyfarfod o'r Grŵp Rhyng-Weinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2023.

Cadeirydd y cyfarfod oedd Mark Spencer AS, Gweinidog Gwladol dros Fwyd Llywodraeth y DU, ar ran Gogledd Iwerddon. Mynychwyd y cyfarfod hefyd gan Mairi Gougeon ASA, Ysgrifennydd Cabinet dros Faterion Gwledig a'r Ynysoedd, Llywodraeth yr Alban; Lorna Slater ASA, Gweinidog Sgiliau Gwyrdd, Economi Gylchol, a Bioamrywiaeth Llywodraeth yr Alban y DU; John Lamont AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, Llywodraeth y DU; James Davies AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol yn Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Llywodraeth y DU; a Katrina Godfrey, Ysgrifennydd Parhaol, DAERA yn absenoldeb gweinidogion Gogledd Iwerddon.

Yn y cyfarfod buom yn trafod Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygio a Dirymu), gan gynnwys statws y Bil, ac yn arbennig gynlluniau Defra ar gyfer rheoli'r ddeddfwriaeth helaeth yn y portffolio.

Yna, gwnaethom drafod canlyniadau cadarnhaol y CBD COP15. Byddwn yn trafod y camau nesaf ym mis Mawrth.

Yn dilyn hyn, rhoddodd Grŵp Monitro Marchnad Amaethyddol y DU ddiweddariad ar y problemau cyflenwi sy'n effeithio ar y sector.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Roedd sawl eitem o Unrhyw Fusnes Arall. Gofynnais am ddiweddariad ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a a Gedwir) a nodwyd y byddaf yn ymateb i lythyr yr Arglwydd Beynon ar y Bil Anifeiliaid (Gweithgareddau Lles Isel Dramor). Gofynnais hefyd am ddiweddariad ar yr alwad am dystiolaeth ar adar mewn cawell y cytunais iddi y llynedd.

Ailadroddodd gweinidogion Llywodraeth yr Alban eu pryderon ynghylch y Pecyn Gwella Amgylchedd Gwynt ar y Môr.

Yna, gofynnais am ddiweddariad ar Strategaeth Rhywogaethau Anfrodorol Ymledol Prydain, y cytunais i’w gyhoeddi ym mis Hydref 2022.

Yn olaf, cododd Llywodraeth yr Alban offer pysgota diwedd oes a gofyn am weithio gyda'i gilydd i leihau gwastraff plastig o'r diwydiant.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 6 Mawrth.

Bydd gohebiaeth am y cyfarfod hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU ar https://www.gov.uk/government/publications/communique-from-the-inter-ministerial-group-for-environment-food-and-rural-affairs.

Mae'r datganiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod toriad er mwyn hysbysu'r aelodau. Os bydd aelodau am imi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd byddwn yn hapus i wneud hynny.

Rwyf yn anfon copi o’r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith ac i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

07 Chwefror 2023

Annwyl Huw,

**Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

Yn dilyn fy llythyr ar 19 Ionawr, rwyf wedi cyhoeddi **Datganiad Ysgrifenedig Gweinidogol** yn rhoi crynodeb o'r trafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod diweddaraf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol.

Rwyf wedi cadarnhau fel rhan o'r Datganiad hwnnw y cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ym mis Mawrth ac y caiff ei gadeirio gan Lywodraeth y DU yn unol â'r trefniadau cylchdroi. Byddaf yn rhoi diweddariad ysgrifenedig ar drefniadau'r cyfarfod nesaf maes o law, a fydd yn cynnwys y dyddiad a'r eitemau sy'n debygol o fod ar yr agenda.

Rwyf hefyd wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol** |
| **DYDDIAD** | **07 Chwefror 2023** |
| **GAN** | **Mick Antoniw AS, Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad** |

Ar 1 Chwefror, bûm yn cadeirio trydydd cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ac yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn y cyfarfod hwnnw.

Cyhoeddwyd cyd-hysbysiad (Saesneg yn unig) yn dilyn y cyfarfod ac mae'n cynnwys manylion llawn y rhai a oedd yn bresennol. Roedd yr eitemau ar yr agenda yn cynnwys: yr argyfwng costau byw; Confensiwn Sewel; Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir; rhaglen ddeddfwriaethol ehangach Senedd y DU; Fframweithiau Cyffredin; a'r cynnydd o ran sefydlu Grwpiau Rhyngweinidogol.

Fel y nodir yn y cyd-hysbysiad, mae'r Pwyllgor wedi comisiynu gweithgor Costau Byw o swyddogion i gydlynu'r gwaith ac i gytuno ar y camau nesaf a sut i ymgysylltu â Gweinidogion.

O ran Confensiwn Sewel, mynegais bryder mawr unwaith eto ynghylch y ffaith bod Llywodraeth y DU yn tueddu fwyfwy, ers 2019, i anwybyddu penderfyniadau'r Senedd i wrthod rhoi cydsyniad i Ddeddfwriaeth y DU. Trafodwyd pwysigrwydd Confensiwn Sewel a'r angen am arferion gweithio rhynglywodraethol cryfach a thryloywder wrth weithio ar Filiau Llywodraeth y DU.

O ran Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir, ailadroddais ein pryderon ynghylch dull gweithredu Llywodraeth y DU, gan gynnwys ein pryderon ynghylch y pwerau cydredol sydd wedi'u cynnwys yn y Bil ar hyn o bryd – a allai ganiatáu i Lywodraeth y DU ddeddfu mewn meysydd datganoledig heb gydsyniad Gweinidogion Cymru na'r Senedd – a'r dyddiad machlud.

Mynegais bryderon difrifol ynghylch yr awgrym y gallai Llywodraeth y DU ailgyflwyno'r Bil Hawliau, yn ogystal â phryderon yn ymwneud â Bil Protocol Gogledd Iwerddon a'r Bil Streiciau (Lefelau Gwasanaeth Gofynnol).

Cytunodd y Gweinidogion ei bod yn bwysig adrodd i’r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol a’r deddfwrfeydd ynghylch gweithredu Fframweithiau Cyffredin ar ôl eu rhoi ar waith yn llawn, ac y dylai swyddogion gynnal asesiad ar y rhaglen, gan gynnwys asesiad ar effaith materion sy’n dod i’r amlwg.

Nododd y Gweinidogion y cynnydd hyd yma o ran sefydlu Grwpiau Rhyngweinidogol. Disgwylir i'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol gael ei gynnal nesaf ym mis Mawrth a Llywodraeth y DU fydd yn cadeirio, yn unol â’r trefniadau cylchdroi.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

7 Chwefror 2023

Annwyl Gadeirydd

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i'ch hysbysu am gyfarfod ar 28 Chwefror 2023 rhwng Gweinidog Iechyd Llywodraeth y DU a Gweinidogion Iechyd y llywodraethau datganoledig.

Yn y cyfarfod rhithwir hwn byddwn yn trafod pwysau cyffredin ar draws gwasanaethau iechyd cenedlaethol y Deyrnas Unedig a'r gwaith cynllunio ac adfer ar ôl y gaeaf. Bydd cyd-hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ôl y cyfarfod.

Rwy'n anfon copi at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

9 Chwefror 2023

Annwyl Huw

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu am Offeryn Statudol diwygio o'r enw Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2023 ("yr OS cywiro"), a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 8 Chwefror ac a ddaw i rym fesul camau. Rwy'n ymddiheuro nad oeddwn mewn sefyllfa i ddarparu hysbysiad cynnar ichi ond ni ddarparodd Llywodraeth y DU yr Offeryn Statudol terfynol inni tan yn hwyr ddydd Llun 6 Chwefror.

Mae'r OS cywiro yn diwygio'r ddarpariaeth gychwyn bresennol (rheoliad 1(2)) yn Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2023 ("y Rheoliadau Diwygiadau Amrywiol") i ddarparu ei bod yn dod i rym ar 10 Chwefror 2023, fel y bwriadwyd. Mae hyn yn cywiro gwall yn y ddarpariaeth gychwyn a olygai nad oedd modd gweithredu'r ddeddfwriaeth.

Mae'r OS cywiro hefyd yn mewnosod darpariaethau trosiannol yn Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Lloegr) 2003, Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Yr Alban) 2003 a Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2003 ("Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Prydain Fawr 2003"). Mae'r darpariaethau yn darparu amddiffyniad mewn unrhyw achosion gorfodi perthnasol mewn perthynas â gwerthiant atchwanegiadau bwyd y defnyddiwyd copr a sinc yn y broses o'u gweithgynhyrchu ac a farciwyd neu a labelwyd cyn i'r priod ddiwygiadau yn rheoliad 6(2) o'r Rheoliadau Diwygiadau Amrywiol ddod i rym. Mae hyn yn cywiro hepgoriad pan na chafodd darpariaeth yn sicrhau cyfnod pontio ar gyfer atchwanegiadau bwyd sy'n cynnwys copr ei chynnwys yn unol â'r bwriad polisi ar gyfer y Rheoliadau Diwygiadau Amrywiol. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfnod pontio tebyg ar gyfer atchwanegiadau bwyd sy'n cynnwys sinc.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rhoddais gydsyniad i’r diwygiadau hyn gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol gan eu bod yn angenrheidiol oherwydd amryfuseddau mewn perthynas â’r Rheoliadau Diwygiadau Amrywiol ac am eu bod yn ffurfio rhan o’r un amcanion polisi y gwnaed y Rheoliadau hynny i’w cyflawni, y rhoddais gydsyniad iddynt yn flaenorol. Mae’n ymddangos y byddai’n annymunol, o ran hygyrchedd y gyfraith, i rannu darpariaethau trosiannol ar sail diriogaethol pan wnaed y brif ddarpariaeth ar sail y DU gyfan.

Mae’r OS cywiro hefyd yn gwneud y diwygiadau trosiannol i destun Cymraeg Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2003, gan gynnal eu hygyrchedd iaith i ddarllenwyr Cymraeg.

Rwyf hefyd wedi anfon llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir,



**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2023** |
| **DYDDIAD** | **09 Chwefror 2023** |
| **GAN** | **Lynne Neagle, Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant** |

Bydd aelodau o'r Senedd yn dymuno gwybod fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig o ran Cymru.

Ceisiwyd cytundeb gan yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar 6 Chwefror i wneud OS o'r enw Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) (Rhif 2) 2023 ("yr OS cywiro") sy'n gwneud darpariaeth sy'n gymwys o ran Prydain Fawr. Gwnaed yr OS cywiro gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, Erthyglau 11(1)(b) a (g), 16(1)(a) ac 16A(2) o Reoliad (EU) Rhif 609/2013 o Senedd Ewrop a'r Cyngor o 12 Mehefin 2013 ynghylch bwyd a fwriedir ar gyfer babanod a phlant ifanc, bwyd at ddibenion meddygol arbennig, ac amnewid deiet yn llwyr er mwyn rheoli pwysau a rheoliad 2(2) a 5(3) o Reoliadau Maeth (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019.

Mae'r OS cywiro yn diwygio'r ddarpariaeth gychwyn bresennol (rheoliad 1(2)) yn Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2023 ("y Rheoliadau Diwygiadau Amrywiol") er mwyn darparu ei bod yn dod i rym ar 10 Chwefror 2023, fel y bwriadwyd. Mae hyn yn mynd i'r afael â gwall yn y ddarpariaeth gychwyn a oedd yn golygu nad oedd modd gweithredu'r ddeddfwriaeth.

Mae'r OS cywiro hefyd yn mewnosod darpariaethau trosiannol yn Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Lloegr) 2003, Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (yr Alban) 2003 a Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Cymru) 2003 ("Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd 2003 Prydain Fawr"). Mae'r darpariaethau yn rhoi amddiffyniad mewn unrhyw achosion gorfodi perthnasol mewn cysylltiad â gwerthu atchwanegiadau bwyd a oedd yn defnyddio copr a sinc yn y broses weithgynhyrchu ac a gafodd eu marcio neu eu labelu cyn i'r diwygiadau priodol yn rheoliad 6(2) o'r Rheoliadau Diwygiadau Amrywiol ddod i rym. Mae hyn yn cywiro hepgoriad sy'n golygu na chafodd darpariaeth sy'n sicrhau cyfnod pontio ar gyfer atchwanegiadau bwyd sy'n cynnwys copr ei chynnwys yn unol â'r bwriad polisi ar gyfer y

Rheoliadau Diwygiadau Amrywiol. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfnod pontio tebyg ar gyfer atchwanegiadau bwyd sinc.

Gosodwyd yr OS cywiro gerbron Senedd y DU ar 8 Chwefror a bydd yn dod i rym fesul cam.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
seneddDCC@senedd.cymru

6 Chwefror 2022

Annwyl Huw,

Hoffwn ddiolch i chi ac aelodau'r Pwyllgor am ystyried trydydd a phedwerydd Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) Llywodraeth y DU.

Rwy'n croesawu'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor ar 13 Ionawr, a'i gasgliad, sef bod y Pwyllgor yn cytuno â'm hasesiad bod y cymalau a'r atodlenni a restrir yn y memoranda at ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i gywiro gwall yn adroddiad y Pwyllgor. Mae paragraffau 30 a 40 yn nodi fy mod yn anghytuno â barn Llywodraeth y DU nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gymalau 13 ac 14 a Rhan 1 o Atodlen 1 ac Atodlen 2. Rhannol gywir yn unig yw hyn. Yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol (Memorandwm rhif 4), cyfeiriais at lythyr yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gymunedau sy'n nodi nad oes angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymalau 13 ac 14 a Rhan 1 o Atodlen 1 ac Atodlen 2. Yna, fe wnes gydnabod barn yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (ym mharagraff 27 o femorandwm rhif 4) ond cedwais at fy argymhelliad gwreiddiol, sef bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymal 13 a Rhan 1 o Atodlen 1.  Felly, rwy'n cytuno nad oes angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer cymal 14 ac Atodlen 2, ond rwy'n anghytuno â barn Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymal 13 a Rhan 1 o Atodlen 1.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn bod mor agored â phosibl â'r Pwyllgor, rwyf ar ddeall y bydd Gweinidogion y DU yn cyflwyno gwelliannau pellach i'r Bil yn ystod y cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin. Rydym yn parhau i dynnu sylw Llywodraeth y DU at bwysigrwydd trafod yn gynnar a'r angen i gynnwys prosesau'r Senedd  wrth ystyried amserlenni eu Biliau.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Eitem 5.2

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

cc. Mark Isherwood
Caadeirydd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

08 Chwefror 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr a'r cwestiynau a gyflwynwyd gan eich Pwyllgor yn ymwneud â Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol y Bil Caffael (Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4). Rwy'n falch o ddarparu fy ymateb, sydd ynghlwm yn Atodiad 1.

Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, sydd hefyd wedi ysgrifennu ataf ac wedi gofyn am gopi o'm hymateb i chi.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1**

**1. Rydych yn dweud yn y memoranda fod gennych bryderon o hyd ynghylch y Bil sydd angen eu datrys cyn y gallech ystyried argymell rhoi cydsyniad. Mae'r materion hyn yn ymwneud â’r pŵer i ychwanegu cytundebau rhyngwladol, diffiniad Awdurdodau Contractio Cymru, pwerau cychwyn, a phwerau i wneud darpariaeth ganlyniadol. Allech chi:**

**a. roi diweddariad ynghylch i ba raddau y mae pob un o'r materion hyn wedi'u datrys, os o gwbl;**

**b. nodi, ers i Femorandwm Rhif 3 a Rhif 4 gael eu gosod, a oes trafodaethau wedi cael eu cynnal ar bob un o'r materion hyn ar lefel Weinidogol, neu ar lefel swyddogol;**

**c. nodi a ydych wedi uwchgyfeirio unrhyw un o'r anghytundebau hyn i lefel anghydfod o dan y Broses Osgoi a Datrys Anghydfodau a sefydlwyd gan yr adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol, ac os nad ydych chi wedi gwneud hynny, pam.**

Mae'r rhan fwyaf o'r pryderon sy’n weddill rydych chi'n cyfeirio atynt bellach wedi eu datrys yn foddhaol. Cytunwyd ar welliant i'r diffiniad o Awdurdod Contractio Cymru ac fe'i cyflwynwyd i'w ystyried ym Mhwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Bydd hyn yn ei gwneud yn glir bod rheolau Cymru yn berthnasol i awdurdodau o'r fath os ydynt yn gweithredu neu'n arfer swyddogaethau sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf mewn perthynas â Chymru. Mae Swyddfa'r Cabinet hefyd wedi cytuno i'n cais i ddiwygio'r pwerau i wneud darpariaeth ganlyniadol i bwerau cydweithredol, sy'n golygu y bydd Gweinidogion Llywodraeth y DU yn gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru wrth arfer y pŵer hwn mewn perthynas â meysydd datganoledig. Mae gwelliant wedi'i gyflwyno i'w ystyried ym Mhwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Cafodd y ddau fater eu trafod a'u datrys ar lefel swyddogol ac roeddent yn destun cymeradwyaeth Weinidogol. Yn olaf, yn dilyn trafodaethau swyddogol a lefel Weinidogol, mae Swyddfa'r Cabinet wedi cyflwyno gwelliant i'r Bil i sicrhau bod un o Weinidogion y Goron yn ceisio cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn dechrau ar ddarpariaethau'r Bil mewn perthynas ag agweddau y Bil sydd wedi eu datganoli i Gymru.

Mae'r materion sy'n dal i fod yn weddill yn ymwneud â masnach ryngwladol. Y mater cyntaf yw bod y pŵer i ychwanegu cytundebau rhyngwladol at y rhestr yn Atodlen 9 i’r Bil wedi'i gynnwys fel pŵer cydamserol, heb unrhyw ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru pan fo Gweinidogion Llywodraeth y DU yn arfer y pŵer hwn mewn perthynas â meysydd datganoledig. Rydym wedi bod yn glir gyda Llywodraeth y DU nad yw'r trefniant yma'n dderbyniol.

Mae'r ail fater o bryder yn ymwneud ag anghydfodau masnach ac wedi codi oherwydd gwelliant a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 25 Ionawr 2023. Effaith y gwelliant yw ei fod yn creu pŵer cydamserol i Weinidog y Goron wneud rheoliadau i ddelio â chanlyniadau caffael anghydfodau masnach o dan gytundeb a weithredwyd drwy Atodlen 9 (ac eithrio Cytundeb Masnach a Chydweithredu gyda'r UE, yr ymdrinnir â hi o dan y ddeddfwriaeth bresennol) heb unrhyw ofyniad i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru pan fydd Gweinidogion Llywodraeth y DU yn arfer y pŵer hwn mewn perthynas â meysydd sydd wedi eu datganoli. Rydym wedi bod yn glir gyda Llywodraeth y DU nad yw'r trefniant yma chwaith yn dderbyniol.

O ran y materion masnach ryngwladol, cynhaliwyd trafodaethau manwl ar lefel Weinidogol ac maent yn parhau ar lefel swyddogol.

Rydym wedi cynnal perthynas weithio dda gyda Llywodraeth y DU ar y Bil Caffael a, hyd yn hyn, rydym wedi gallu dod i atebion y cytunwyd arnynt heb fod angen dibynnu ar y Broses Osgoi a Datrys Anghydfodau a nodir yn y cytundeb rhyng-lywodraethol. Ni ragwelir y bydd

angen defnyddio’r Broses i ddatrys y materion sy’n weddill, fodd bynnag, pe bai’r berthynas yn chwalu yn y dyfodol, byddem yn ceisio datblygu pethau drwy’r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn y lle cyntaf.

**2. Ym Memorandwm Rhif 3 rydych chi'n dweud bod y pryder oedd gennych o ran pŵer datgymhwyso ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd, y cyfeirioch ato mewn memoranda cydsyniad deddfwriaethol blaenorol, wedi'i ddatrys. Fe ddywedoch chi yn y memorandwm cyntaf fod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyflwyno'r gwelliant angenrheidiol. Fodd bynnag, ym Memorandwm Rhif 2 fe ddywedoch chi fod Gweinidogion Cymru wedi penderfynu peidio â cheisio cynnwys y pŵer, ond eu bod nhw’n ystyried opsiynau amrywiol, a all gynnwys cymryd y pwerau sydd eu hangen drwy ddeddfwriaeth y Senedd. Mae’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi hysbysu’r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ddiweddar y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) i wneud darpariaeth ar gyfer "pŵer i ddatgymhwyso" i gaffael gwasanaethau iechyd Cymru a "phŵer i wneud" i alluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno trefn gaffael newydd ar wahân ar gyfer gwasanaethau iechyd y GIG yng Nghymru. Dywed y Gweinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig amserlen gyflym i'r Bil. Allech chi:**

**a. esbonio pam fod Llywodraeth Cymru wedi newid ei safbwynt ar gynnwys y pŵer datgymhwyso ar gyfer gofal iechyd o fewn y Bil Caffael, o gofio bod Llywodraeth y DU wedi rhoi sicrwydd o ymrwymiad i gyflwyno'r gwelliant perthnasol;**

Dim ond o fewn y Bil Caffael yr ymrwymodd Llywodraeth y DU i'r pŵer anghymwyso.  Bu i weinidogion gydnabod bod angen defnyddio'r ddau bwer er mwyn newid ac felly roedd angen deddfu yng Nghymru o hyd. O ystyried yr angen hwn i ddeddfu, penderfynodd Gweinidogion Cymru y byddai cyflwyno Bil a oedd yn cynnwys y pwerau anghymhwyso a chreu gyda’i gilydd yn darparu'r ddeddfwriaeth angenrheidiol ac yn rhoi mwy o gydlyniad a hygyrchedd i'r ddeddfwriaeth.

**b. cadarnhau a yw Llywodraeth Cymru wedi asesu effaith ei phenderfyniad ar hygyrchedd cyfraith gaffael Cymru, ac os oes asesiad wedi'i gynnal, nodwch ganlyniad yr asesiad hwnnw. At y dibenion hyn, ymddengys i ni y gallai awdurdod contractio yng Nghymru orfod ystyried y Bil Caffael ac is-ddeddfwriaeth sydd i'w wneud oddi tano, Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru), y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;**

Mae Llywodraeth Cymru'n asesu goblygiadau hygyrchedd y cynigion deddfwriaethol yn rheolaidd. Mae hyn yn rhan arferol o gylch gwaith Swyddfa y Cwnsler Deddfwriaethol ac mae hefyd yn cael ei ystyried wrth benderfynu a ddylai Senedd neu Lywodraeth y DU ddeddfu ar ran Cymru.

Nid ydym o'r farn y byddai'n fwy hygyrch defnyddio un Ddeddf ar gyfer y gwahanol ddarpariaethau sy'n ymwneud â chaffael.

Mae darpariaethau Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (SPPP) ar gaffael yn ymwneud yn y bôn â phartneriaeth gymdeithasol ac maent yn cyweddu yn fwy hygyrch mewn Deddf am bartneriaethau cymdeithasol (yn hytrach nag mewn Bil sy'n ymwneud â gweithdrefnau caffael cyhoeddus). Bwriad hyn yw asio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sy'n nodi'r egwyddorion trefniadol ehangach ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r egwyddorion partneriaeth gymdeithasol dan sylw yn gysylltiedig â'r darpariaethau am ddatblygu cynaliadwy, ac felly yr angen i gyfeirio at Ddeddf 2015.

Mae Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd Cymru (Cymru) (HSPW) yn gyfrwng deddfwriaethol dros dro gan fod ei ddarpariaethau wedi'u cynllunio i ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol, yn benodol:

• Deddf Caffael y DU (trwy fewnosod "pŵer i ddatgymhwyso" i Gymru yn union ar ôl pŵer i ddatgymhwyso cyfatebol i Loegr), a

• Deddf GIG (Cymru) 2006 (drwy fewnosod "pŵer creu").

Dyma'r dull mwyaf hygyrch oherwydd:

• ar ôl i Ddeddf HSPW ddiwygio Deddf Caffael y DU a Deddf y GIG (Cymru) 2006, bydd defnyddwyr ond yn darllen y ddwy Ddeddf ddiwygiedig - ni fydd angen cyfeirio at Ddeddf HSPW, gan fod ei "gwaith wedi'i wneud";

• Deddf Caffael y DU yw'r cartref rhesymegol ar gyfer y pŵer i ddatgymhwyso oherwydd mae'n ei wneud yn glir bod gwasanaethau iechyd yn cael eu trin yn wahanol (a bydd ochr yn ochr â'r pŵer i ddatgymhwyso cyfatebol yn Lloegr);

• Deddf GIG (Cymru) 2006 yw'r cartref rhesymegol ar gyfer y pŵer creu, fel y brif Ddeddf yng Nghymru ar wasanaethau iechyd (ac yn yr un modd mae pŵer creu cyfatebol Lloegr i'w fewnosod yn y darn cyfatebol o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol yn Lloegr, Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006).

**c. cadarnhau a oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried ehangu cwmpas Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) i gynnwys darpariaethau ehangach mewn perthynas â'r**

**prosesau sy'n sail i gyfraith gaffael yng Nghymru, a fyddai'n adlewyrchu'r rhai ym Mil Caffael Llywodraeth y DU i raddau helaeth, ac yn ceisio cael gwared ar ddarpariaethau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd o'r Bil Caffael;**

Cafodd Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) ei lunio mewn ymateb i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022, sy'n darparu sail ddeddfwriaethol ar gyfer sefydlu Trefn Dewis Darparwyr (PSR) a fydd yn rheoli trefniant gwasanaethau gofal iechyd yn Lloegr. Bydd y PSR yn dileu ystod gyfyngedig o wasanaethau gofal iechyd o'r gofyniad i ymgymryd â phroses gaffael lawn. Bydd yr HSPWB yn sefydlu trefn gaffael bwrpasol ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru sy'n adlewyrchu yr hyn a ddarperir ar ei gyfer o dan y Ddeddf Iechyd a Gofal, gan greu fframwaith priodol ac effeithiol ar gyfer caffael gwasanaethau gofal iechyd mewn ffordd deg yng Nghymru a Lloegr.

Nod y PSR yw annog hyblygrwydd a symud i ffwrdd o'r disgwyliad o gystadlu mewn rhai amgylchiadau. Bydd yr HSPWB ond yn berthnasol i rai gwasanaethau gofal iechyd ac yn golygu na fyddai angen caffael contractau ar gyfer y gwasanaethau hynny yn unol â'r Ddeddf Caffael.

Mae manteision o ymuno â Mesur Caffael Llywodraeth y DU gan gynnwys sicrhau y bydd yna barhad i gyflenwyr a busnesau traws-ffiniol. Mae'n annhebygol y byddai Gweinidogion yn gallu efelychu'r darpariaethau trawsffiniol yn llwyr mewn Bil Seneddol gan y byddai symud ein Bil ein hunain ymlaen yn debygol o effeithio ar ein gallu i ddefnyddio'r platfform canolog a gallai arwain at wahanol brosesau caffael i Loegr. Mae'r dull gweithredu ar y cyd hefyd yn golygu y gellir deddfu'r diwygiadau hyn yng Nghymru yn gynt nag y byddai wedi bod yn bosibl fel arall.

**d. nodi a ydych yn credu bod deddfu ar gyfraith gaffael trwy dri bil a gyflwynwyd mewn ddeddfwrfeydd gwahanol yn agos at ei gilydd yn ddull rhesymegol o ddeddfu; ac a fyddwch yn cynnal adolygiad mewnol o'r dull a fabwysiadwyd i lywio arferion y dyfodol.**

Ar hyn o bryd mae'r Mesur Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yn cael ei ystyried gan y Senedd. Mae'r Bil hwn yn darparu fframwaith polisi a chanlyniadau i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, trwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael i'r cyhoedd sy'n gyfrifol yn gymdeithasol. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno trefn gaffael newydd drwy ei Bil Caffael a fydd yn gwneud darpariaeth i'r broses o gaffael 'nwyddau, gwasanaethau a gwaith' generig. Mae'r darpariaethau yn y Bil Caffael Gwasanaethau Iechyd (Cymru) yn wahanol gan eu bod yn ymwneud â'r broses weithredol o gaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac mae'r Bil wedi'i gyflwyno mewn ymateb i ddiwygiadau caffael sy'n cael eu datblygu ar gyfer gwasanaethau iechyd yn Lloegr gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan eu Cyfundrefn Dewis Darparwyr arfaethedig. Bydd ystyriaeth ofalus yn cael ei roi i sicrhau bod cynlluniau gweithredu yn deall y cyd-destun ehangach.

Nid wyf yn ystyried y byddai adolygiad mewnol yn briodol neu'n fuddiol, gan fod fy swyddogion wedi gweithio gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad i sicrhau bod cymaint o alinio â phosibl wrth i'r tri Bil ddatblygu. Rwy'n hyderus bod y dull a gymerwyd yn rhoi sicrwydd ac eglurder i brynwyr a chyflenwyr ledled Cymru a bydd yn sefydlu trefn effeithiol

ac effeithlon ar gyfer caffael sy'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gyflawni canlyniadau cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol i Gymru.

**3. Mae cymal 50 o'r Bil (Hysbysiadau manylion y contract a chyhoeddi contractau), fel y cyfeirir ato yn y ddau femorandwm, yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Fodd bynnag, yn rhinwedd gwelliant, mae'r pŵer cyfatebol i Weinidogion y Goron yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Allech chi roi trosolwg o unrhyw drafodaethau yr ydych yn eu cael i geisio diwygio'r pŵer i Weinidogion Cymru hefyd fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.**

Mae'r cymal hwn bellach yn gymal 53 yn fersiwn y Mesur fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi.

Nid oes pŵer i Weinidogion Cymru o dan y cymal hwn o ran rheoleiddio, ac felly nid oes unrhyw gwestiwn yn codi ynghylch y weithdrefn berthnasol.

**4. Mae Cymal 88 o'r Bil (Hysbysiadau, dogfennau a gwybodaeth: rheoliadau a system ar-lein), fel y cyfeirir ato ym Memorandwm Rhif 3, yn darparu bod yn rhaid i Weinidog y Goron wneud trefniadau i sefydlu a gweithredu system ar-lein at ddibenion cyhoeddi hysbysiadau, dogfennau a gwybodaeth arall o dan y Bil. Mae systemau ar-lein yng Nghymru y gallai fod ganddynt rai o'r un swyddogaethau. Allech chi egluro sut y gall y systemau hyn ryngweithio, neu a fydd y system newydd sydd i'w sefydlu gan un o Weinidogion y Goron yn disodli unrhyw systemau sy'n bodoli yn barod, ac a allech chi nodi a ydych yn ceisio diwygiadau er mwyn rhoi pŵer cyfatebol i Weinidogion Cymru.**

Caiff GwerthwchiGymru ei ddefnyddio i gyhoeddi hysbysiadau cylch oes caffael a gynhyrchwyd gan Awdurdodau Contractio Cymru o dan yr is-ddeddfwriaeth a ddaw i rym yng Nghymru yn sgil y Bil. Yna, bydd GwerthwchiGymru yn 'gwthio' yr hysbysiadau cylchoedd bywyd caffael perthnasol i system ar-lein newydd y DU a sefydlwyd gan Weinidog y Goron. Dyma'r un ffordd ag y mae data hysbysiadau GwerthwchiGymru yn cael eu gwthio ar hyn o bryd i Wasanaeth Canfod Tendr Llywodraeth y DU sy'n bodoli eisoes. Bydd hyn yn galluogi Cymru i fodloni gofynion tryloywder a nodir yn y Bil a sicrhau cydymffurfio â rhwymedigaethau o dan gytundebau masnach ryngwladol sy'n ei gwneud yn ofynnol i holl gaffaeliadau'r DU uwchben trothwyon penodol gael eu hysbysebu mewn un man. Ni fydd system ar-lein newydd y DU yn disodli'r angen am blatfformau presennol yng Nghymru a fydd yn cael eu diweddaru i gefnogi'r hysbysiadau cylch oes caffael newydd. Mae swyddogion yn gweithio i sicrhau bod y systemau'n integreiddio mor ddi-dor â phosibl.

Mae'r Bil yn rhoi pŵer cyfatebol i Weinidogion Cymru i benderfynu ar "ffurf a chynnwys hysbysiadau, dogfennau neu wybodaeth arall i'w cyhoeddi". Mae'r dull sydd wedi ei amlinellu yn galluogi Cymru i gasglu gwybodaeth ychwanegol ynghylch hysbysiadau cylch oes caffael yn GwerthwchiGymru. Felly, ni fyddwn yn ceisio gwelliant i ddarparu pŵer cyfatebol i Weinidogion Cymru i wneud trefniadau i sefydlu a gweithredu system ar-lein at ddiben cyhoeddi hysbysiadau, dogfennau a gwybodaeth arall o dan y Bil.

**5. Rydych yn ystyried bod cymalau 12 ac 80 o'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Fodd bynnag, nid yw'r darpariaethau hyn yn berthnasol i drefniadau caffael datganoledig Cymru. Yn ogystal, nid yw'n ofynnol i awdurdodau**

**datganoledig Cymru (o fewn ystyr adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) roi sylw i'r datganiad polisi caffael cenedlaethol o dan gymal 12 ac nid ydynt yn ddarostyngedig i gymal 80, ac eithrio mewn perthynas â chaffael o dan drefniant caffael a gadwyd yn ôl. Allech chi egluro pam rydych o'r farn fod angen cydsyniad ar y cymalau hyn.**

Bydd achosion lle bydd y ddyletswydd i roi sylw i'r Datganiad Polisi Caffael Cenedlaethol (cymal 13(10) bellach yn fersiwn y Bil a ddygwyd o Dŷ’r Arglwyddi) a chymal 80 sy'n ymwneud â chontractau is na’r trothwy a reoleiddir (cymal 84 bellach yn fersiwn y Bil a ddygwyd o Dŷ'r Arglwyddi) yn berthnasol i awdurdodau contractio Cymru. Er enghraifft, pan fo awdurdod lleol o Gymru yn cydweithio gydag awdurdod lleol o Loegr ynghylch caffael, a’r awdurdod lleol yn Lloegr yw'r awdurdod arweiniol.

Am y rheswm hwn, credwn fod y cymalau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

26 Ionawr 2023

Annwyl Rebecca,

Bil Caffael Llywodraeth y DU - memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol

Yn ein cyfarfod ar 24 Ionawr 2023, fe wnaethom drafod y memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol (Memorandwm Rhif 3 a Memorandwm Rhif 4) rydych chi wedi'u gosod mewn perthynas â Bil Caffael Llywodraeth y DU.

Er mwyn llywio ein hystyriaeth ymhellach, byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o eglurder ar rai materion y cyfeirir atynt yn y memoranda; mae'r rhain wedi'u nodi yn yr Atodiad.

Gan mai'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y ddau femorandwm yw 2 Mawrth, byddem yn ddiolchgar o gael eich ymatebion i'r cwestiynau hyn erbyn hanner dydd ar 9 Chwefror.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Atodiad

1. Rydych yn dweud yn y memoranda fod gennych bryderon o hyd ynghylch y Bil sydd angen eu datrys cyn y gallech ystyried argymell rhoi cydsyniad. Mae'r materion hyn yn ymwneud â'r pŵer i ychwanegu cytundebau rhyngwladol, diffiniad Awdurdodau Contractio Cymru, pwerau cychwyn, a phwerau i wneud darpariaeth ganlyniadol. Allech chi:

    a. rhoi diweddariad ynghylch i ba raddau y mae pob un o'r materion hyn wedi'u datrys, os o gwbl;

    b. nodi, ers i Femorandwm Rhif 3 a Rhif 4 gael eu gosod, a oes trafodaethau wedi cael eu cynnal ar bob un o'r materion hyn ar lefel Weinidogol, neu ar lefel swyddogol;

    c. nodi a ydych wedi uwchgyfeirio unrhyw un o'r anghytundebau hyn i lefel anghydfod o dan y Broses Osgoi a Datrys Anghydfodau a sefydlwyd gan yr adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol, ac os nad ydych chi wedi gwneud hynny, pam lai.

2. Ym Memorandwm Rhif 3 rydych chi'n dweud bod y pryder oedd gennych o ran pŵer datgymhwyso ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd, y cyfeirioch ato mewn memoranda cydsyniad deddfwriaethol blaenorol, wedi'i ddatrys. Fe ddywedoch chi yn y memorandwm cyntaf fod Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gyflwyno'r gwelliant angenrheidiol. Fodd bynnag, ym Memorandwm Rhif 2 fe ddywedoch chi fod Gweinidogion Cymru wedi penderfynu peidio â cheisio cynnwys y pŵer, ond eu bod nhw'n ystyried opsiynau amrywiol, a all gynnwys cymryd y pwerau sydd eu hangen drwy ddeddfwriaeth y Senedd. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi hysbysu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ddiweddar y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) i wneud darpariaeth ar gyfer "pŵer i ddatgymhwyso" i gaffael gwasanaethau iechyd Cymru a "phŵer i wneud" i alluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno trefn gaffael newydd ar wahân ar gyfer gwasanaethau iechyd y GIG yng Nghymru. Dywed y Gweinidog y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig amserlen gyflym i'r Bil. Allech chi:

    a. esbonio pam fod Llywodraeth Cymru wedi newid ei safbwynt ar gynnwys y pŵer datgymhwyso ar gyfer gofal iechyd o fewn y Bil Caffael, o gofio bod Llywodraeth y DU wedi rhoi sicrwydd o ymrwymiad i gyflwyno'r gwelliant perthnasol;

    b. cadarnhau a yw Llywodraeth Cymru wedi asesu effaith ei phenderfyniad ar hygyrchedd cyfraith gaffael Cymru, ac os oes asesiad wedi'i gynnal, nodwch ganlyniad yr asesiad hwnnw. At y dibenion hyn, ymddengys i ni y gallai awdurdod contractio yng Nghymru orfod ystyried y Bil Caffael ac is-ddeddfwriaeth sydd i'w wneud oddi tano, Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru), y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*;

    c. cadarnhau a oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried ehangu cwmpas Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) i gynnwys darpariaethau ehangach mewn perthynas â'r


Senedd Cymru
Welsh Parliament

prosesau sy'n sail i gyfraith gaffael yng Nghymru, a fyddai'n adlewyrchu'r rhai ym Mil Caffael Llywodraeth y DU i raddau helaeth, ac yn ceisio cael gwared ar ddarpariaethau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd o'r Bil Caffael;

d. nodi a ydych yn credu bod deddfu ar gyfraith gaffael trwy dri bil a gyflwynwyd mewn deddfwrfeydd gwahanol yn agos at ei gilydd yn ddull rhesymegol o ddeddfu; ac a fyddwch yn cynnal adolygiad mewnol o'r dull a fabwysiadwyd i lywio arferion yn y dyfodol.

3. Mae cymal 50 o'r Bil (Hysbysiadau manylion contract a chyhoeddi contractau), fel y cyfeirir ato yn y ddau femorandwm, yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Fodd bynnag, yn rhinwedd gwelliant, mae'r pŵer cyfatebol i Weinidogion y Goron yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Allech chi roi trosolwg o unrhyw drafodaethau yr ydych yn eu cael i geisio diwygio'r pŵer i Weinidogion Cymru hefyd fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

4. Mae Cymal 88 o'r Bil (Hysbysiadau, dogfennau a gwybodaeth: rheoliadau a system ar-lein), fel y cyfeirir ato ym Memorandwm Rhif 3, yn darparu bod yn rhaid i Weinidog y Goron wneud trefniadau i sefydlu a gweithredu system ar-lein at ddibenion cyhoeddi hysbysiadau, dogfennau a gwybodaeth arall o dan y Bil. Mae systemau ar-lein yng Nghymru y gallai fod ganddynt rai o'r un swyddogaethau. Allech chi egluro sut y gall y systemau hyn ryngweithio, neu a fydd y system newydd sydd i'w sefydlu gan un o Weinidogion y Goron yn disodli unrhyw systemau sy'n bodoli yn barod, ac a allech chi nodi a ydych yn ceisio diwygiadau er mwyn rhoi pŵer cyfatebol i Weinidogion Cymru.

5. Rydych yn ystyried bod cymalau 12 ac 80 o'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Fodd bynnag, nid yw'r darpariaethau hyn yn berthnasol i drefniadau caffael datganoledig Cymru. Yn ogystal, nid yw'n ofynnol i awdurdodau datganoledig Cymru (o fewn ystyr adran 157A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*) roi sylw i'r datganiad polisi caffael cenedlaethol o dan gymal 12 ac nid ydynt yn ddarostyngedig i gymal 80, ac eithrio mewn perthynas â chaffael o dan drefniant caffael a gadwyd yn ôl. Allech chi egluro pam rydych o'r farn fod angen cydsyniad ar y cymalau hyn.

**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Lesley Griffiths
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Vaughan Gething
Gweinidog yr Economi

8 Chwefror 2023

Annwyl Lesley a Vaughan,

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Ar 25 Ionawr, bu'r Pwyllgor yn trafod Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) a'i gynigion cydsyniad deddfwriaethol cysylltiedig. Mae Aelodau'n bryderus iawn am effaith bosibl y Bil ar Gymru yn y meysydd sy'n dod o dan ein cylch gwaith. Yn hynny o beth, penderfynwyd ysgrifennu atoch i gael rhagor o wybodaeth am asesiad Llywodraeth Cymru o effaith y Bil ar y sectorau hyn: economi Cymru, masnach, sgiliau, amaethyddiaeth, pysgodfeydd, y sector bwyd a diod a safonau lles anifeiliaid. Byddem hefyd yn ddiolchgar iawn pe gallech gadarnhau pa waith sy'n cael ei wneud i baratoi ar gyfer y Bil.

Felly, a fyddech cystal â darparu'r canlynol i'r Pwyllgor:

- Eich barn ar effaith y Bil ar y sectorau uchod ac unrhyw feysydd eraill y credwch y gallai fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor;
- Rhestr o Gyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) berthnasol a wnaed gan Weinidogion Cymru o fewn eich cylchoedd gwaith;
- Eich cynlluniau i ddefnyddio pwerau'r Bil mewn perthynas â safonau o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn, fel lles anifeiliaid;
- Gwybodaeth am ba drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda llywodraethau eraill yn y DU ynghylch effaith y Bil ar faterion o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, a ph'un ai/sut y gellid cydgysylltu unrhyw newidiadau i REUL perthnasol, os caiff y Bil ei basio;

- Manylion am unrhyw effaith ar gynlluniau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru pan fo'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor;
- Eich barn ar sut y gallai'r Bil ryngweithio â chytundebau masnach ryngwladol ar ôl Brexit;
- Eich barn ar effaith bosibl y Bil ar fasnach o fewn y DU, gan gynnwys sut y caiff ei weithredu ochr yn ochr â Deddf y Farchnad Fewnol 2020; a
- Eich barn ar sut y gallai'r Bil ryngweithio â fframweithiau cyffredin o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn.

Cynhaliodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad alwad am dystiolaeth ar ôl i'r Bil gael ei gyflwyno. Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth a ddarparwyd i'r ymgynghoriad hwn a oedd yn berthnasol i'n cylch gwaith. Yn ogystal â darparu'r manylion y gofynnir amdanynt uchod, a wnewch chi ymateb i'r pwyntiau a amlinellir isod sydd wedi'u nodi gan randdeiliaid yn eu cyflwyniadau i ymgynghoriad y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol.

Bwyd a diod:

- Diogelwch bwyd – Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn nodi eu bod yn gyfrifol am dros 150 o ddarnau o REUL ar ddiogelwch bwyd yng Nghymru a Lloegr, ynghyd â 39 o ddarnau ychwanegol yng Nghymru, lle mae ganddi gyfrifoldebau ehangach. Mae'r ASB yn nodi "rydym yn glir na allwn ddirwyn i ben y deddfau ar ddiogelwch a dilysrwydd bwyd heb beri dirywiad yn safonau bwyd y DU a risg sylweddol i iechyd y cyhoedd."
- Ymwahanu – mae'r Ffederasiwn Bwyd a Diod yn datgan bod gan hyn y potensial i ysgogi ymwahanu sylweddol os na chaiff newidiadau eu cysoni ar sail y DU a byddai hyn wedyn yn rhoi beichiau ychwanegol ar fusnesau Cymru, yn enwedig mentrau llai.

Ffermio:

- Safonau ffermio - dywed NFU Cymru y gallai llywodraethau ganfod eu hunain mewn sefyllfa yn brwydro yn erbyn camau brysiog i gau bylchau deddfwriaethol sydd wedi agor. Yn ôl NFU, bydd senarios o'r fath yn niweidiol i hyder a sicrwydd busnes a defnyddwyr. Maent yn rhybuddio bod rhaid gwobrwyo safonau uchel o'r farchnad, neu fel arall bydd cynhyrchwyr o Gymru yn cael eu rhoi dan anfantais gystadleuol. Maent yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda llywodraethau eraill i eirioli safonau uchel a gwrthsefyll ras i'r gwaelod.

Lles Anifeiliaid:

- Dywed RSPCA fod RUEL yn cynnwys rhai o'r newidiadau mwyaf totemig a phwysig yn lles anifeiliaid ac maent yn poeni y gallai safonau fod mewn perygl. Maent hefyd yn pryderu am newidiadau neu gael gwared ar gyfreithiau a gadwyd yn ôl ar Gymru, fel gwaharddiadau ar ddefnyddio hormonau milfeddygol a gwaharddiadau ar fewnforio anifeiliaid gwyllt a chynhyrchion morloi, a'r defnydd o anifeiliaid mewn ymchwil.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

Cofion,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

Equality and Human Rights Commission

# Retained EU Law (Revocation and Reform) Bill

Equality and Human Rights Commission briefing for House of Lords Second Reading

## Summary

1. The Equality and Human Rights Commission (the Commission) is a statutory body established by the Equality Act 2006. We are an independent UN-accredited National Human Rights Institution, and Britain's equality regulator. Parliament gave us powers to advise on the equality and human rights implications of laws and proposed laws, and to publish information and advice, including to Parliament, on any matter related to equality and human rights.
2. The Retained European Union Law (Revocation and Reform) Bill ('the Bill') would overhaul a body of UK domestic law, known as 'retained EU law' (REUL), created by the EU (Withdrawal) Act 2018 (EUWA 2018) as amended by the EU (Withdrawal Agreement) Act 2020, and which came into existence at the end of 2020. The Bill allows for the revocation of certain REUL and gives ministers the power to replace, restate or update certain REUL. An estimated 3,800 pieces of legislation have been identified as being within scope of the Bill, of which the UK Government has so far added around 2,400 to its 'Retained EU Law Dashboard'.
3. The Commission's concerns about the Bill fall into five categories:
    a) Uncertainty about the Government's policy intentions and potential effects on equality and human rights protections
    b) The lack of parliamentary scrutiny of potential changes
    c) The limited time available before the proposed 'sunset' date
    d) Legal uncertainty resulting from the Bill

e) The implications for devolution and the Union

4. Overall, the breadth of law within the scope of the Bill has considerable implications for equality and human rights. These include, but are not limited to, legislation on parental leave, paid annual leave, rights for part-time workers, maximum hours for HGV drivers, and other employment rights. The Bill could also impact on laws on minimum rights for refugees, and disabled people's access to rail and air transport.

5. The Bill gives the Government broad powers in relation to REUL with little opportunity for parliamentary oversight. It is unclear how the Government intends to exercise the powers contained in the Bill.

6. The proposed REUL 'sunset' date of December 2023 provides insufficient parliamentary time to scrutinise the statutory instruments which could have a significant impact on equality and human rights law. There is also likely to be insufficient time for the UK Government to comply with its legal obligations in respect of each item of REUL under the Public Sector Equality Duty of the Equality Act.

7. The Bill risks creating legal uncertainty by altering the way in which the courts can consider retained EU and domestic case law.

8. The Bill also has implications for devolution, including by giving UK Government ministers powers to make decisions on devolved matters.

## Policy uncertainty and potential equality and human rights impacts

9. The Bill covers at least 3,800 pieces of legislation, which broadly fall into 300 separate policy areas.

10. Clause 15 of the Bill creates a power to revoke REUL without replacing it, or to replace it with alternative provision. Replacement regulations may achieve similar policy objectives, but there is no requirement for them to do so. Clause 15 states that the overall effect of replacement provisions must not increase the regulatory burden, suggesting that the Government's intention is to reduce rather than strengthen or update UK regulation. The Government has given

little indication of the policy objectives that will guide its decisions on revoking or replacing REUL, nor how decisions will be made consistent across Government departments. This will limit Parliament's ability to safeguard important business and civil society interests, including on equality and human rights laws.

11. The Bill does not apply to financial issues, which are instead covered by the Financial Services and Markets Bill. This follows a positive proposal process, rather than through 'sunsetting', thereby offering opportunities for strengthened parliamentary scrutiny. This approach would be preferable to REUL too.

12. The Bill covers legislation on limits on working time, the right to paid holiday, rights for temporary and agency workers, and parental leave. These are important legal protections for all UK workers which have specific impacts for people with certain protected characteristics under the Equality Act, such as sex and pregnancy and maternity. Any negative impacts on people sharing protected characteristics must be identified and mitigated by Government.

13. We are concerned at the potential impact of the Bill on workers with the protected characteristics of sex and pregnancy and maternity. This is because the workers' rights at risk, such as maternity and equal pay, and parental leave, disproportionately affect women. There may also be negative economic impacts if the ability of women to participate in the labour market is eroded.

14. Other REUL with implications for equality and human rights include protections for child witnesses in sexual offence cases, standards for the treatment of refugees, asylum seekers and displaced persons, and measures to support disabled people's access to rail and air travel. We urge the Government to provide assurances that these protections will be retained.

15. We also urge the Government to assess REUL policy by policy, or sector by sector, including by setting out its policy objectives, to allow for full parliamentary scrutiny and ensure compliance with the PSED. This should include engagement with those with protected characteristics, employees, employers and service providers, and their representatives.

## Scrutiny

16. The Bill grants powers to UK Ministers, at departmental level, to revoke, amend or preserve REUL. Unless preserved or amended, all REUL will be revoked ('sunsetted') at the end of 2023. We are concerned at the lack of parliamentary scrutiny provided by this process.

17. Clause 11 revokes the parliamentary scrutiny safeguards in Schedule 8 to EUWA 2018, which apply to the amendment or revocation via secondary legislation of 'subordinate legislation made under section 2(2) of the European Communities Act 1972', which is a category of REUL. These safeguards include the provision of explanatory statements, a 28-day consultation period for parliamentary committees to comment on the proposed amendment or revocation of a statutory instrument, and the use of the affirmative rather than the negative scrutiny procedure to ensure that a vote takes place in Parliament prior to the modification or revocation of a REUL statutory instrument.

18. Such scrutiny does not apply to any statutory instruments that revoke, restate or replace REUL or assimilated law (any REUL in existence after the end of 2023), even if the statutory instruments implement substantive changes in the law or weaken parliamentary safeguards.

19. Clauses 12-14 give UK Ministers powers to restate or reproduce REUL or assimilated law. Ministers can thereby make changes to legislation to resolve ambiguities, doubts or anomalies or to improve clarity or accessibility. Any such restatement may re-apply EU interpretive principles, such as the supremacy of EU law, if considered appropriate. These powers are subject to the affirmative procedure if the regulations amend primary legislation. Ministers can otherwise choose to use the negative or affirmative procedure.

20. Clause 15 enables the revocation and replacement of REUL through secondary legislation. Ministers have broad powers under this Clause. They can choose to make alternative provision, with no requirement for the new regulations to pursue the same or similar objectives. Where such alternative provision is made, regulations will be subject to the affirmative procedure. The affirmative procedure must also be used if the regulations confer a power to make subordinate legislation or create a criminal offence. Otherwise, ministers

can choose the negative or affirmative procedure. Further, Clause 16 outlines that ministers can change secondary REUL as they consider appropriate 'to take account of changes in technology or developments in scientific understanding', which is within to individual ministers' power to determine. Clause 16 also applies indefinitely to REUL and to the new regulations that replace REUL, so ministers could change this legislation in perpetuity. We are concerned that Clause 16 is only subject to negative scrutiny procedure, which offers little opportunity for parliamentary scrutiny.

21. Schedule 4 applies a sifting system for Statutory Instruments in relation to Clauses 12 (power to restate REUL), 13 (power to restate assimilated law or sunsetted EU rights) and 15(2) and (3) (power to replace secondary REUL). The sifting procedure allows a parliamentary committee to recommend that a piece of secondary legislation be upgraded from the negative procedure to the affirmative procedure. However, the Government is not obliged to accept such a recommendation if it publishes a statement explaining why it does not.

22. Although parliamentary committees will be able to sift negative procedure Statutory Instruments made under the Bill, their ability to do so in practice may be limited by the large number of policy areas within the Bill's scope, again restricting adequate debate and scrutiny. Furthermore, if legislation is sunsetted, which is the default position if no action is taken, then there will be no opportunity for parliamentary scrutiny at all.

23. Given the potential impacts of the Bill on equality and human rights, we consider the scrutiny provisions in the Bill to be inadequate. The Bill should be amended to ensure the effective scrutiny of any regulations which could result in changes to equality and human rights protections. This could include reinstating the provisions in the EUWA 2018 that act as scrutiny safeguards, such as the provision of explanatory statements, a 28-day consultation period for parliamentary committees to comment on the proposed amendment or revocation of a statutory instrument, and the use of the affirmative rather than the negative scrutiny procedure.

24. We also ask that the Bill be amended to require ministers to lay before Parliament a list of legislation to be revoked, in advance of the sunset deadline, to enable Parliament to consider and, if necessary, amend the list.

## Sunset provisions

25. The Bill contains a provision that will revoke or 'sunset' any REUL by default by 31 December 2023, unless ministers actively decide to save it (Clause 1) or extend the date of revocation (Clause 2).

26. Clause 3 provides that any retained rights, powers and liabilities that are part of REUL because of section 4 of the EUWA 2018 will also be revoked by 31 December 2023. This includes treaty rights including Article 157 of the Treaty on the Functioning of the European Union, which covers equal pay for equal work. There is no extension of time available for the sunsetting of these rights.

27. Given the volume of REUL, with ongoing uncertainty about the exact legislation within scope and the range of policy areas affected, we consider that there is insufficient time for the Government or Parliament to consider each item adequately. Indeed, it is likely that some REUL will not appear on the 'dashboard' and may therefore fall away without any analysis or scrutiny.

28. Nor is there likely to be sufficient time for the Government fully to comply with its obligations under the Public Sector Equality Duty of the Equality Act. This requires departments, when considering changes to the law, to have due regard to the need to eliminate unlawful discrimination, harassment and victimisation, to advance equality of opportunity between people who share a protected characteristic and those who do not, and to foster good relations between groups of people.

29. No section of the Bill allows for the reinstatement of revoked law. Thus, if significant legislation were sunsetting by accident or omission, it could not be reinstated without primary legislation.

30. The 2023 sunset deadline should be extended significantly. This could be done using powers set out in Clause 2 of the Bill, to June 2026. The power to extend the sunset under Clause 2 should also be extended so it applies to the sunset deadline in Clause 3. However, this may still not provide adequate

time for all policy areas to be considered and scrutinised so there should be sufficient flexibility to extend the deadline further until thorough analysis of all in-scope legislation has been carried out by Departments, and subject to the parliamentary scrutiny mentioned previously in this briefing.

## Legal uncertainty

31. Clause 7 relaxes the current rules that apply to courts and tribunals when considering retained EU and domestic case law. It requires higher courts[1] to have regard to certain factors in considering whether to depart from retained EU case law or retained domestic case law, including that decisions of a foreign court are not (unless otherwise provided) binding, and whether the retained case law restricts the development of domestic law. First instance courts[2] will be able to refer points of retained case law to an appellate court, which can then issue a binding decision on whether the lower court should depart from the retained case law.

32. These provisions create uncertainty about how cases relating to retained case law will be decided. Cases in the lower courts may take longer while complex questions about the status of retained case law are considered and referred to higher courts. Retained case law is regularly considered by the courts and tribunals when interpreting provisions of the Equality Act 2010. We are concerned at how the Bill will affect the interpretation of the Equality Act, and therefore the rights of people with protected characteristics.

33. We therefore urge the Government to publish an assessment of the potential impact of this change on the courts and on litigants, with steps taken to mitigate any risk of increases in the time and cost of litigation, particularly in relation to equality law.

## Devolution and the Union

34. The Bill creates new powers under which UK Government ministers will not be required to seek consent from the devolved governments of Scotland and

[1] Such as the Court of Appeal in England and Wales or the Inner House of the Court of Session in Scotland.
[2] Such as the High Court, Tribunals or the Outer House of the Court of Session in Scotland.

Wales when making decisions about REUL. Indeed, the Bill allows for anything previously regulated by REUL to be amended, changed, or replaced, across the entirety of the UK.

35. This means the UK Government may exercise new powers in areas of devolved competence. Many of these areas, such as transport, health, housing, and education, have implications for equality and human rights. The Commission is the statutory regulator of the Equality Act across Britain and has the role of the UN-accredited National Human Rights Institution for England and Wales, and for Scotland in respect of matters reserved to the UK.

36. It is important that the devolved administrations should be able to consider all REUL relevant to their jurisdictions. They should be allowed sufficient time to do so. Clause 2 of the Bill gives Crown ministers the ability to extend the sunset clause for REUL until 23 June 2026, but this power does not apply to ministers in the devolved governments. We noted that, at Commons Second Reading of the Bill, the UK Government refused a Welsh Government request for the REUL dashboard to be updated to identify which legislation is reserved and which is devolved, and how Welsh legislation might be affected.

37. Public authorities in Wales and Scotland have specific duties under the Equality Act to help them to comply with the Public Sector Equality Duty. We are concerned that the volume and speed of changes required by the Bill will make it hard for devolved governments and public bodies in Wales and Scotland to comply with the law such as by publishing equality impact assessments. This risks regression in equality and human rights standards.

38. We urge the UK Government to develop a more detailed dashboard indicating whether legislation is devolved or has devolved implications. This would help devolved governments to determine the implications for equality and human rights in Scotland and Wales of changes to UK legislation.

39. We also suggest that devolved governments are allowed sufficient time to consider equality and human rights implications of the revocation of REUL by also giving ministers in devolved governments the power to extend the sunset deadline in respect of REUL with devolved implications.

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

9 Chwefror 2023

Annwyl Huw

Capasiti Llywodraeth Cymru i ddeddfu

Yn dilyn cyhoeddi ein hadroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24, ysgrifennaf i dynnu sylw eich Pwyllgor at y bennod ar weithredu a datblygu deddfwriaeth (gweler tudalennau 48-50).

Yn ystod sesiwn graffu ar y gyllideb ddrafft ar 19 Ionawr 2023, dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd wrthym fod y ddeddfwriaeth ar draws ei phortffolio ar y trywydd iawn ar gyfer y flwyddyn y mae wedi'i hamserlennu ar ei chyfer, ond mae'n ddibynnol ar ddeddfwriaeth sydd ar y gweill ac sy'n dod i rym gan y Senedd ar hyn o bryd, fel y gellir symud timau Biliau oddi yno ymlaen at y darn nesaf o ddeddfwriaeth (gweler Cofnod y Trafodion, paragraff 131). Ychwanegodd un o swyddogion y Gweinidog fel a ganlyn:

> *"I think the biggest issue is the skilled resource that is needed to do this as well. The Government's got a significant legislative programme, which they want us to get through, which is quite right, but it's getting the resources in the right place at the right time […] And, also, the central services main expenditure group, which a lot of this is paid from, has had a reduction, like everywhere else within Government. We haven't been protected from that. So, again, it's getting the balance and the optimisation so that we can take some of this through, but, as the Minister said, everything is on track in her area at the moment." (Cofnod y Trafodion, paragraff 139)*



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Roeddem yn bryderus o glywed mai'r her fwyaf o ran darparu'r rhaglen ddeddfwriaethol yw'r "adnoddau medrus sydd eu hangen", a gwnaethom gytuno i dynnu sylw eich Pwyllgor at y pryder hwn.

Rydym yn nodi, yn eich adroddiad ar y gyllideb ddrafft rydych yn "cydnabod honiad y Cwnsler Cyffredinol fod gan Lywodraeth Cymru ddigon o adnoddau i gyflawni ei rhaglen ddeddfwriaethol" ond ei bod yn aneglur i chi a oes gan Lywodraeth Cymru ddigon o adnoddau i gyflawni'r holl ddeddfwriaeth y gall benderfynu ar unrhyw adeg sy'n angenrheidiol.

Gobeithiwn y bydd y dystiolaeth hon yn ddefnyddiol i chi wrth ichi barhau i fonitro capasiti Llywodraeth Cymru i ddeddfu.

Yn gywir,

John

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

27 Ionawr 2023

Annwyl Lywydd

Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Parthed y llythyr a anfonais ar 21 Rhagfyr 2022 mewn perthynas â Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), yn ystod ein cyfarfod ar 23 Ionawr 2022, gwnaethom drafod llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol (dyddiedig 19 Ionawr), sy'n ymateb i gyfres o gwestiynau y gwnaethom eu gofyn ar ôl i'r Cwnsler Cyffredinol ymddangos gerbron y Pwyllgor yn ein cyfarfod ar 5 Rhagfyr. Ar 23 Ionawr, gwnaethom hefyd drafod eich llythyr dyddiedig 19 Ionawr, lle gwnaethoch ofyn a fyddai modd inni barhau i dynnu sylw'r Pwyllgor Busnes at faterion perthnasol, yn enwedig yr agweddau hynny sydd â goblygiadau posibl o ran busnes y Senedd.

Mae llythyr y Cwnsler Cyffredinol, dyddiedig 19 Ionawr, yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ddull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r Bil, yn ogystal â gwybodaeth am sut y mae'n adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir, materion sy'n ymwneud â chapasiti ac adnoddau, a'r effaith ar y Senedd a'i rôl.

Gwnaethom gytuno y byddem yn tynnu eich sylw chi, a sylw Pwyllgorau perthnasol y Senedd, at yr ohebiaeth dan sylw.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Eitem 11

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon